# EVANS, DAVID (1705 - 1788), offeiriad, llenor, a cherddor

**Enw:** David Evans
**Dyddiad geni:** 1705
**Dyddiad marw:** 1788
**Rhiant:** David Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** offeiriad, llenor, a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn Llangynyw, Sir Drefaldwyn, mab i'r Parch. D. Evans, Llangynyw. Addysgwyd ef yn Rhydychen; graddiodd yn B.A. yn 1728, ac yn M.A. yn 1731, ac yn ddiweddarach yn D.D. Cafodd ficeriaeth gorawl Llanddwyn yn 1734 a rheithoriaeth Llanerfyl yn 1737. Yn 1737 newidiodd Lanerfyl am Lanymynech, lle y bu yn ficer am y gweddill o'i oes. Yn 1772 cafodd ganoniaeth Llanelwy. Yr oedd yn ysgolhaig gwych. Cynorthwyodd Dr. Charles Burney i ysgrifennu ei *History of Music*, ac Edward Jones ('Bardd y Brenin') yngl n ag alawon Cymreig y *Musical ... Relicks of the Welsh Bards*. Ymysg ei bapurau, cafwyd llythyr oddi wrth un o'i gyfeillion yn gofyn am gynhorthwy yn y geiriau hyn: 'Y mae cyfaill imi o'r enw Samuel Johnson, yn son am gyhoeddi *Dictionary* o'r iaith Saesneg, a byddai yn rhwymedig iawn i chwi am anfon rhestr o'r geiriau Saesneg hynny sydd a'u tarddiad oddiwrth y Gymraeg.' Bu farw 1788, a chladdwyd ef yn eglwys Llanymynech, lle y mae cofgolofn farmor iddo.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870)

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5233450


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu